

cyfrifiad
2021

Canlyniadau Cyfrifiad 2021:

Esboniad o

grynodebau pwnc

Cyfrifiad 2021

Yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, rydyn ni'n cynllunio ac yn cynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

Caiff y cyfrifiad ei gynnal bob 10 mlynedd. Mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Nid oes unrhyw beth arall yn rhoi cymaint o fanylion amdanom ni a'r gymdeithas rydym ni'n byw ynddi.

Ar gyfer Cyfrifiad 2021, roedd Diwrnod y Cyfrifiad ddydd Sul 21 Mawrth 2021.

Canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021

Ddydd Mawrth 28 Mehefin 2022, gwnaethom gyhoeddi'r canlyniadau cyntaf am y boblogaeth a thai yng Nghymru a Lloegr o Gyfrifiad 2021.

Mae'r data hyn ar gael ar wefan SYG. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn <https://cy.ons.gov.uk/census>

Gallwch wyllo ein fideos Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys "crynodeb o niferoedd amcangyfrifedig Cyfrifiad 2021 o'r bobl a'r cartrefi yng Nghymru a Lloegr" ar lein yn

<https://cyfrifiad.gov.uk/cael-cefnogaeth/fformatau-hygyrch>

Hydref i aeaf 2022/23: crynodebau pwnc

Set o ddata a sylwebaeth ategol, a drefnir yn ôl thema debyg, yw crynodeb pwnc. Drwy gydol hydref a gaeaf 2022/23, byddwn ni'n cyhoeddi amrywiaeth o grynodedau pwnc.

Bydd pynciau'r data y byddwn ni'n eu rhyddhau yn cynnwys:

- demograffeg a mudo
- grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd
- cyn-filwyr lluoedd arfog y Deyrnas Unedig
- tai
- y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- addysg
- iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Beth fydd yn y datganiadau crynodebau pwnc?

Setiau data

Tablau o ddata Cyfrifiad 2021 yw'r rhain sy'n berthnasol i'r pwnc, fel demograffeg a mudo, neu dai, er enghraifft. Bydd y rhan fwyaf o'r setiau data ar gyfer pob pwnc yn cynnwys data am un newidyn yn unig. Nodwedd benodol sy'n berthnasol i berson neu gartref yw newidyn. Er enghraifft, crefydd neu fath o gartref.

Bwletinâu ystadegol

Dogfennau i gefnogi'r setiau data yw'r rhain, gan gynnwys data ystadegol, testun, siartiau, a thablau, sy'n rhoi'r prif ganfyddiadau i chi a gwybodaeth ddiddorol.

Gwybodaeth ategol ystadegol

Byddwn ni'n rhyddhau dogfennau sy'n cynnig cyd-destun ychwanegol i'r data. Er enghraifft, drwy amlinellu diffiniadau o dermau allweddol, mesurau ansawdd a dulliau ystadegol.

Cynnwys rhyngweithiol

Rydym yn creu cynnwys arloesol a fydd yn eich galluogi i ryngweithio â data'r cyfrifiad mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Mae hyn yn cynnwys:

- mapiau y gallwch eu haddasu er mwyn gweld patrymau daearyddol a'ch helpu i archwilio eich ardal
- adnodd y gallwch ei addasu a fydd yn eich galluogi i ddiffinio eich ardal eich hun er mwyn astudio a delweddu'r data rydych chi'n chwilio amdanynt
- adroddiadau a fydd yn tynnu sylw at y newidiadau mwyaf diddorol ym mhob ardal awdurdod lleol
- cwis i'ch helpu i ddysgu mwy am ble rydych chi'n byw

Byddwn ni'n rhyddhau ac yn diweddarau'r cynnwys hwn wrth i ragor o ddata gael eu cyhoeddi.

Proffiliau ardal

Mae proffiliau ardal yn eich galluogi i weld ystadegau o bynciau gwahanol ar gyfer ardal benodol. Byddwn ni'n dechrau darparu'r rhain ar ôl i'r crynodeb pwnc cyntaf gael ei ryddhau.

Cynlluniau ar gyfer datganiadau yn y dyfodol

Byddwn ni'n cyhoeddi rhaglen fanwl o waith dadansoddi ar amrywiaeth eang o bynciau. Nod rhaglen ddadansoddi Cyfrifiad 2021 fydd eich helpu i ddeall y data a llywio penderfyniadau ar bolisiau a gwasanaethau yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn bwriadu rhyddhau datganiadau pellach o ddata Cyfrifiad 2021 drwy gydol 2023. Bydd datganiadau yn y dyfodol yn cynnwys data manwl a diweddariadau i adnoddau a chynhyrchion. Bydd y rhain yn eich galluogi i archwilio cydberthnasau rhwng y data mewn ffyrdd gwahanol.

Ble i ddod o hyd i ganlyniadau Cyfrifiad 2021

Mae canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021, gan gynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi wedi'u talgrynnu ar gyfer Cymru a Lloegr, ar gael ar wefan SYG yn cy.ons.gov.uk/census

Mae gwybodaeth am y data a dadansoddiadau o bynciau gwahanol, gan gynnwys y newidynnau a'r dosbarthiadau rydym yn bwriadu eu cynnwys ynddynt, ar gael ar wefan SYG, ar y dudalen am grynodedbau pwnc.

Mae tudalen y cyfrifiad ar wefan SYG yn cynnwys gwybodaeth ategol am weithgareddau ac allbynnau'r cyfrifiad. cy.ons.gov.uk/census

Help a chefnogaeth

I'ch helpu i gael gwybodaeth am ganlyniadau Cyfrifiad 2021, rydyn ni wedi llunio rhywfaint o wybodaeth mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys fideos Iaith Arwyddion Prydain sydd ar gael ar lein yn <https://cyfrifiad.gov.uk/>

Byddwn ni'n diweddarau'r fformatau hyn â gwybodaeth o ddatganiadau yn y dyfodol. Rydyn ni hefyd yn bwriadu creu rhagor o fideos Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn helpu i rannu data a chynhyrchion o'r crynodebau pwnc.